

YN Y GEGIN

Banana pops wedi rhewi

Cynhwysion:

- Bananas (digon i bawb gael hanner banana'r un)
- Siocled (unrhyw fath a hoffwch)
- Addurniadau (e.e. melysion mân, cnau mân, cnau coco)

Byddwch hefyd angen:

- Ffyn lolipop (ond fe allwch chi wneud rhai heb ffyn os nad oes gennych chi rai)
- Hambwrdd pobi
- Papur gwrth-saim
- Dysgl microdon



YN Y GEGIN - Banana pops wedi rhewi

Dull:

- Yn syml, piliwch y bananas a'u torri yn eu hanner a'u gosod ar hambwrdd gyda phapur gwrth-saim oddi tanynt
- Gosodwch y ffyn ar eu hyd
- Rhowch yr hambwrdd yn y rhewgell am tua awr i galedu'r bananas
- Rhowch y siocled mewn dysgl microdon
- Rhowch y ddysgl yn y microdon gan stopio i droi'r siocled bob 10 eiliad nes ei fod wedi toddi
- Tynnwch y bananas o'r rhewgell a'u dipio yn y siocled ac ysgeintio'r addurniadau arnynt
- Rhowch nhw'n ôl yn y rhewgell hyd nes y byddwch chi eisiau eu bwyta

AWGRYM GWYCH:

Gofynnwch i'ch plentyn helpu gyda'r rysâit hawdd a blasus yma

